

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 3, Medi 2019




RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

41/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

MEDI 19, 2019



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-83933-148-0

© Hawlfraint y Goron 2019

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 3, Haf 2019

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight



Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad

Croeso Cymru

Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

Canolfan QED, Ystad Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

E-bost: tourismresearch@gov.wales

ISBN: 978-1-83933-148-0

Medi 19, 2019

© Hawlfraint y Goron 2019



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. Prif ganfyddiadau	3
2. Cefndir a methodoleg	5
3. Perfformiad yr haf.....	7
4. Rhesymau dros gynnydd mewn ymwelwyr	10
5. Rhesymau dros lai o ymwelwyr	11
6. Proffidioldeb	13
7. Darpariaeth ddwyieithog.....	15
8. Paratoi ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb	22
9. Hyder ar gyfer yr Haf.....	23
10. Canfyddiadau ansoddol.....	25

1. Prif ganfyddiadau

Tymor da i'r diwydiant

- 1.1 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (79%) wedi cynyddu neu gynnal lefelau eu hymwelwyr yr haf hwn. Ymysg y rheiny a nododd gynnydd mewn ymwelwyr, roedd oddeutu chwarter (26%) yn nodi'r tywydd fel rheswm. Fodd bynnag, mae'r tywydd hefyd yn cael ei nodi fel ffactor allweddol o ran perfformiad ymysg yr un rhan o bump a nododd lai o ymwelwyr.
- 1.2 Dywedodd oddeutu un o bob chwech (16%) o fusnesau a nododd gynnydd mewn ymwelwyr fod 'mwy o bobl yn aros yn y DU' yn ffactor, ac esboniodd rhai fod y bunt wan yn dylanwadu ar hyn. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch Brexit yn cael ei nodi fel ffactor allweddol o ran perfformiad gan oddeutu un rhan o bump a nododd lai o ymwelwyr.

Delwedd gyson ar draws pedwar rhanbarth Cymru

- 1.3 Yn gyffredinol, mae perfformiad y diwydiant yn cael ei adlewyrchu ar draws pedwar rhanbarth Cymru (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin, De-ddwyrain). Nid yw'r canlyniadau rhwng y rhanbarthau'n amrywio'n sylweddol.

Perfformiad arbennig o dda i'r sector llety â gwasanaeth

- 1.4 Mae oddeutu dau o bob pump (41%) o fusnesau llety â gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr yr haf hwn, sef cyfran uwch na ffigurau sectorau llety eraill. Y tywydd oedd y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd.
- 1.5 Ymddengys nad oes yr un sector ar i lawr ar y cyfan, sy'n dangos bod tymor llwyddiannus yr haf wedi lledaenu i bob rhan o'r diwydiant twristiaeth.

Diffyg paratoi am Brexit heb gytundeb

- 1.6 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristiaeth yng Nghymru'n gwneud dim i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb, yn enwedig y rheiny yn y de-orllewin a'r canolbarth. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau cyn i AS bleidleisio o blaid deddfwriaeth i geisio atal gadael yr UE heb gytundeb. Ar y cyfan, mae'r hyder ar gyfer yr hydref yn 'weddol' ym mhob sector.

Amrywiaeth eang o ran darpariaeth ddwyieithog ac agweddau

- 1.7 Mae 13% o weithredwyr yn dweud bod 'pob' aelod o'r staff sy'n dod i gysylltiad â chwsmeriaid yn siarad yn ddwyieithog yn Saesneg a Chymraeg, ac mae 46% pellach yn dweud bod 'rhywfaint' o'r staff yn gwneud hyn. Mae 41% yn dweud 'nad oes unrhyw' staff yn gwneud hyn.

- 1.8 Mae rhai gweithredwyr (37%) o'r farn nad yw darpariaeth ddwyieithog yn berthnasol i'w busnes. Fodd bynnag, mae oddeutu hanner (53%) o weithredwyr yn cytuno ei fod yn 'pwynt gwerthu dilys sy'n cyfoethogi profiad ymwelwyr'.

2. Cefndir a methodoleg

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi'i gynnal ar ffurfiau amrywiol ers 2005, ac fel arfer cynhelir rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 2.2 Mae'r don ymchwil hon yn ymwneud â chyfnod gwyliau'r haf yn 2019, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer yr hydref. Yn ogystal, rydym wedi holi cwestiynau penodol am ddarpariaeth ddwyieithog a'r effaith y gallai Brexit heb gytundeb ei chael.

Sut y cynhelir yr Arolwg?

- 2.3 Rydym wedi cynnal 800 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae hwn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.5\%$. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:


Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	90	45	62	42	239
Llety hunanarlwyo	104	51	92	42	289
Meysydd carafanau/pebyll	42	13	21	9	85
Hostelau	8	-	7	3	18
Atyniadau	24	17	21	24	86
Gweithredwyr gweithgareddau	15	7	13	5	40
Bwytaï / tafarndai / caffis	8	13	10	12	43
Cyfanswm	291	146	226	137	800

- 2.4 Mae tua tri chwarter (73%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd, ac mae 27% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytaï / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytaï, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

- 2.5 Cynhaliwyd pob cyfweiliad ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ar ddiwedd mis Awst a dechrau mis Medi. Ceir copi o'r holiadur fel atodiad.

3. Perfformiad yr haf

Perfformiad fesul sector



Tymor da i'r diwydiant

- 3.1 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (79%) wedi cynyddu neu gynnal lefelau eu hymwelwyr yr haf hwn.

"Roeddem wedi bwcio llawn am saith wythnos yn olynol"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

- 3.2 Mae oddeutu dau o bob pump (41%) o fusnesau llety â gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr yr haf hwn, sef cyfran uwch na ffigurau sectorau llety eraill. Y tywydd oedd y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd (gan chwarter y rheini a welodd gynnydd). Mae gweithredwyr eraill wedi buddsoddi yn eu busnesau, wedi rhoi cynnig ar sianeli marchnata newydd, neu wedi elwa o ddigwyddiadau lleol.


"Cawsom adnewyddiad ar ddechrau'r flwyddyn, sydd wedi helpu gyda'n hadolygiadau ar TripAdvisor. Mae'r Eisteddfod wedi bod o help mawr yn ogystal."
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

"Gwnaethom yn wych yr haf hwn! Gwnaethom gynnal hyrwyddiadau trwy Groupon, a wnaeth helpu."
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

- 3.3 Ymddengys nad oes yr un sector ar i lawr ar y cyfan, sy'n dangos bod tymor llwyddiannus yr haf wedi lledaenu i bob rhan o'r diwydiant twristiaeth.

“Rydym wedi bod yn ehangu’r busnes ... rydym wedi ychwanegu caffi a llety newydd”
Darparwr gweithgareddau

Tuedd o ran perfformiad




Perfformiad sefydlog yn dilyn haf da y llynedd

- 3.4 Mae canlyniadau cadarnhaol y rhan fwyaf o fusnesau yr haf hwn, sydd wedi cynyddu neu gynnal nifer eu hymwelwyr, yn dilyn haf da yn 2018, a oedd, yn ei dro, yn well na haf 2017.

“Roedd y llynedd wedi torri record, ac mae eleni yr un fath”
Atyniad, y Gogledd

“Roedd y tywydd mor dda am gyfnod mor hir yn ystod haf y llynedd ei bod yn anorffod y byddem yn gweld rhywfaint o ostyngiad yn lefelau ymwelwyr eleni”
Parc carafanau, y De-orllewin

Perfformiad fesul rhanbarth



Delwedd gyson ar draws pedwar rhanbarth Cymru

3.5 Yn gyffredinol, mae perfformiad y diwydiant yn cael ei adlewyrchu ar draws pedwar rhanbarth Cymru (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin, De-ddwyrain). Nid yw'r canlyniadau rhwng y rhanbarthau'n amrywio'n sylweddol.


"Mae wedi bod yn brysur iawn yr haf hwn!"

Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

"Rydym yn mynd yn brysurach a brysurach yn ddiweddar"

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

4. Rhesymau dros gynnydd mewn ymwelwyr



Effeithiau amrywiol y tywydd

- 4.1 Ymysg y rheiny a nododd gynnydd mewn ymwelwyr, roedd oddeutu chwarter (26%) yn nodi'r tywydd fel rheswm. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod y tywydd yn ffactor allweddol ar berfformiad ymysg un rhan o bump o'r rheini a nododd eu bod wedi cael llai o ymwelwyr (trafodir hyn nesaf yn Adran 5).
- 4.2 Profodd y DU gyfnodau hir o dywydd cynnes a heulog ym mis Mehefin a Gorffennaf cyn iddi droi'n fwy cymysg yn ystod mis Awst, y mis allweddol ar gyfer gwyliau.


Prydeinwyr ar eu gwyliau yn y DU

- 4.3 Dywedodd oddeutu un o bob chwech (16%) o fusnesau a nododd gynnydd mewn ymwelwyr fod 'mwy o bobl yn aros yn y DU' yn ffactor, ac esboniodd rhai fod y bunt wan yn dylanwadu ar hyn. Mae'r bunt yn colli gwerth oherwydd ansicrwydd yn sgil Brexit.

"Nid yw pobl [Brydeinig] yn gallu fforddio mynd ar wyliau i Ewrop gan ei fod mor ddrud. O ganlyniad, bydd mwy o bobl yn cymryd gwyliau gartref."

Parc carafanau, y Canolbarth

5. Rhesymau dros lai o ymwelwyr



Nid yw'r tywydd wedi helpu rhai

- 5.1 Er i Gymru fwynhau tywydd braf ym mis Mehefin a Gorffennaf, mae'r effeithiau cadarnhaol ar gyfer rhai busnesau wedi'u trechu gan dywydd cymysg ym mis Awst. Gall atyniadau dan do a lleoedd bwyta/yfed berfformio i'r gwrthwyneb i weddill y diwydiant o ganlyniad i'r tywydd.

"Rydym wedi ein lleoli mewn arcêd, felly os nad yw'r tywydd yn dda iawn, mae pobl yn fwy tebygol o gymryd lloches gyda ni!"
Caffi, y De-ddwyrain

Mae Brexit yn dal i fod yn amhendant


- 5.2 Mae cynnwrf ynghylch Brexit yn parhau. Yn ystod cyfnod yr haf y mae'r arolwg hwn yn cyfeirio ato, nid oedd ASau wedi pleidleisio eto o blaid deddfwriaeth i geisio atal gadael yr UE heb gytundeb. Roedd felly yn aneglur iawn a fyddai'r DU yn gadael heb gytundeb, ac mae'n dal i fod yn aneglur pryd y bydd y DU yn gadael (neu os bydd o gwbl), a chyda pa fath o gytundeb.
- 5.3 Mae rhai busnesau (18%) sy'n cael llai o ymwelwyr yn nodi'r cynnwrf hwn fel rheswm dros gyfnod sydd wedi bod yn dawelach.

"Nid oes gan bobl hyder oherwydd Brexit"
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

"Bob tro y mae dyddiad newydd yn codi ar gyfer Brexit, mae ein hymnoliadau archebu yn dod i ben. Unwaith y byddwn yn mynd heibio i'r dyddiad, maent yn cynyddu unwaith yn rhagor. Bydd pobl yn ofnus tan iddynt wybod beth sy'n digwydd."
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

"Rydym wedi siarad ag ymwelwyr o'r Almaen sy'n dweud bod pobl yn nerfus ynglŷn â threfnu gwyliau yn y DU"
Llety hunanddarpar, y Gogledd

6. Proffidioldeb



Gweithio'n galed er mwyn gwneud elw yn y sector llety

- 6.1 Mae cadw proffidioldeb yn ymddangos fel gwaith eithaf caled yn y sector llety ar hyn o bryd. Fel yn y baromedr blaenorol ym mis Mehefin, mae rhai'n nodi costau cynyddol, tra bo eraill, ar yr un pryd, yn dweud nad yw amodau'r farchnad yn eu caniatáu i godi eu prisiau. Mae twf Airbnb yn parhau i gael effaith sylweddol ar nifer o weithredwyr, yn enwedig yn y sector hunanddarpar. Fodd bynnag, mae nifer o weithredwyr llety hunanddarpar yn adrodd eu bod wedi perfformio'n well ar ôl dewis ymuno ag Airbnb.

"Mae wedi bod yn anoddach cael pobl i ddod i mewn ... mae llawer o gystadleuaeth. Airbnb sydd wedi'n lladd fwyaf."
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

"Mae Airbnb wedi bod o gymorth mawr – ymunais y llynedd"
Llety hunanddarpar, y Gogledd


"Mae costau wedi cynyddu'n ddiweddar, felly mae ein helw yn llai"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

- 6.2 Mae'r sectorau y tu hwnt i'r sector llety fel bwytaï / tafarndai / caffis a darparwyr atyniadau a gweithgareddau yn ymddangos fel petaent wedi gwneud yn well.

"Mae elw'r siop anrhegion wedi cynyddu eleni"
Atyniad, y De-orllewin

"Nid yw'r elfen llety wedi bod yn wych, ond rydym yn dibynnu ar fwyd a diod, sy'n cynyddu'r elw"
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Tueddiadau o ran proffidioldeb



Mae pwysau proffidioldeb wedi llacio ychydig dros yr haf


- 6.3 Er bod rhai busnesau mewn rhai sectorau yn dal i fod o dan bwysau i barhau'n broffidiol, mae'r tymor haf prysur wedi lleddfu'r sefyllfa rhywfaint.
- 6.4 Mae'r penderfyniad ynghylch maint yr elw yn erbyn nifer yr ymwelwyr yn ddilema parhaus mewn rhai sectorau. Mae cofrestru â llwyfannau archebu ar-lein amlwg yn sicrhau niferoedd, ond gyda meintiau elw is.

“Rydyn ni wedi cychwyn archebion ar-lein eleni, felly mae ein harchebion ychydig yn uwch ond mae'r elw i lawr o ganlyniad i hyn”
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

7. Darpariaeth ddwyieithog

- 7.1 Yn y don hon, rydym wedi holi cwestiynau penodol ynglŷn â darpariaeth ddwyieithog Saesneg a Chymraeg, ac agweddau gweithredwyr tuag ati.

laith ysgrifenedig ddwyieithog



Mae atebion 'ddim yn berthnasol' ar gyfer unrhyw un o'r uchod wedi eu heithrio o'r canlyniadau

Amrywiaeth eang mewn darpariaeth ysgrifenedig

- 7.2 O ran iaith ysgrifenedig ddwyieithog (arwyddion, gwybodaeth, deunyddiau hyrwyddo), ceir amrediad eang o arferion busnes, o ddarparu popeth yn ddwyieithog i ddim.
- 7.3 Mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth gwanaf yn Ne-orllewin Cymru, ble, ar gyfer y tri math o ddeunydd uchod, mae rhwng dwy ran o dair a thri chwarter o fusnesau nad ydynt yn darparu unrhyw beth yn ddwyieithog. Y prif reswm dros hyn yw nad Cymru yw'r brif farchnad, ac felly mae gweithredwyr yn gweld bod y Gymraeg yn gost ddiangen.

"Mae'n ymarfer cost a budd, ac nid yw'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid yn Gymry"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Mae'r mwyafrif helaeth o'n cleientiaid yn dod o Loegr"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

- 7.4 Gogledd Cymru sy'n cynnwys y crynodiad mwyaf o siaradwyr Cymraeg. Mae ei darpariaeth ddwyieithog rhywfaint yn well, ond hyd yn oed yn y fan hon, mae dros hanner o fusnesau (55%) nad ydynt yn darparu unrhyw wybodaeth ysgrifenedig yn ddwyieithog. Efallai bod hyn yn ymddangos ychydig yn rhyfedd, ond Lloegr (yn enwedig gogledd-orllewin Lloegr) yw prif

farchnad nifer fawr o fusnesau twristiaeth Gogledd Cymru, ac Ewrop yn ogystal mewn rhai achosion. Maent felly yn blaenoriaethu anghenion eu prif farchnadoedd, hyd yn oed os yw'r gweithredwyr yn siarad Cymraeg eu hunain.

“Cefais bopeth wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ond nid yw wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i ni. Mae llai na 5% o fy ngwesteion yn siaradwyr Cymraeg.”

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

“Mae'r rhan fwyaf o'n gwesteion yn dod o Fanceinion, Lerpwl a Stoke-on-Trent”

Parc carafanau, y Gogledd

“Rwy'n siaradwr Cymraeg. Mae nifer fawr o'n cwsmeriaid yn siaradwyr Saesneg neu o dramor. Gwnaethom argraffu taflen ddwyieithog unwaith ond roedd yn ddibwrpas.”

Darparwr gweithgareddau, Gogledd Cymru

Mae atyniadau yn dueddol o ddarparu mwy yn ddwyieithog

- 7.5 Mae dau o bob pump (41%) o atyniadau a darparwyr gweithgareddau yn dweud bod eu holl wybodaeth ysgrifenedig yn ddwyieithog. Mae hyn yn cymharu â chyfran lawer is (12%) o fusnesau ar draws sectorau eraill sy'n dweud hynny.

“Mae'n ychwanegu at y profiad ar gyfer pobl sy'n ymweld o dramor”

Atyniad, y De-ddwyrain

Mae rhai busnesau yn gweld gwerth 'synnwyr o le'

- 7.6 Mae rhai busnesau'n dweud y dylai ymwelwyr deimlo synnwyr o le pan fyddant yng Nghymru, a bod gweld arwyddion dwyieithog yn rhan o hynny.

“Mae'n eithriadol o bwysig fod ymwelwyr yn gweld arwyddion a phopeth yn ddwyieithog yn yr ardal ac yng Nghymru. Mae o werth mawr.”

Llety hunanddarpar, y Gogledd

“Rwy'n edrych o'm cwmpas rŵan ac mae popeth dwi'n gallu ei weld yn Saesneg ac yn Gymraeg”

Llety hunanddarpar, y Gogledd


Mae rhai yn teimlo bod siarad Cymraeg yn fwy pwysig na'i hysgrifennu

- 7.7 Mae rhai busnesau nad ydynt yn darparu llawer o ddeunydd ysgrifenedig yn ddwyieithog yn teimlo bod y flaenoriaeth o ran darpariaeth ddwyieithog yn ymwneud â siarad. Rydym yn rhoi mwy o sylw i hyn o dan Gwestiwn 9.

“Nid yw'r arwyddion yn bwynt gwerthu mawr, ond mae cael staff sy'n siarad Cymraeg yn helpu yn hyn o beth”

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

laith lafar ddwyieithog



Ceir amrywiaeth sylweddol fesul rhanbarth

7.8 Mae gan dros hanner (59%) o fusnesau o leiaf rhywfaint o staff sy'n gallu siarad yn ddwyieithog â chwsmeriaid. Mae hyn yn amrywio'n sylweddol fesul rhanbarth, fel y dangosir uchod, am fod gan hyn lawer i'w wneud â sgiliau iaith presennol staff lleol yn yr ardal, yn hytrach na busnesau yn cyflogi siaradwyr dwyieithog yn fwriadol.

"Methu siarad Cymraeg yw ein rhwystr. Petawn yn siaradwr Cymraeg, byddwn yn fodlon iawn i gyfathrebu yn y ddwy iaith."

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

"Mae pobl yn aml yn dod at y ddesg a gofyn a ydym yn siarad Cymraeg, yn enwedig mewn digwyddiadau rygbi – cwsmeriaid o ogledd Cymru"

Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

"Dwi'n ffodus os dwi'n gallu dod o hyd i staff sy'n gallu siarad Saesneg, heblaw am Gymraeg!"

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

"Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn rhwystr – nid oes llawer"


Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Atyniadau sydd â'r ddarpariaeth ddwyieithog ehangach

7.9 Mae gan y rhan fwyaf (78%) o atyniadau o leiaf rhywfaint o staff sy'n gallu siarad yn ddwyieithog â chwsmeriaid.

"Rydym yng Nghymru. Dylem fod yn gallu gwybod o leiaf rhywfaint o Gymraeg sylfaenol."
Atyniad, y Gogledd

Agweddau tuag at ddarpariaeth ddwyieithog



Sbectrwm eang iawn o ran agweddau

- 7.10 Mae agweddau gweithredwyr tuag at ddarpariaeth ddwyieithog yn amrywio'n fawr, o'r rheini sy'n ei chofleidio fel pwynt gwerthu i'r rheini nad ydynt yn ei gweld fel bod yn berthnasol i'w busnesau.
- 7.11 Fel y trafodwyd o dan Gwestiwn 8 a Chwestiwn 9, ceir rhywfaint o wahaniaethau fesul rhanbarth, gyda gweithredwyr Gogledd Cymru ar y cyfan yn bod yn fwy cadarnhaol. Fodd bynnag, hyd yn oed yng Ngogledd Cymru, nid yw traean (32%) o'r gweithredwyr yn gweld darpariaeth ddwyieithog fel rhywbeth sy'n berthnasol i'w busnesau. Mae hyn yn cymharu â chyfran uwch – ond nid llawer yn uwch – o 40% yn y rhanbarthau eraill.
- 7.12 Mae'n ddibynol ar y costau cysylltiedig (arian ac amser) a meintiolir costau hynny yn erbyn y budd tebygol.

Cyfoethogi profiad ymwelwyr

- 7.13 Mae rhai busnesau yn gefnogol iawn tuag at ddwyieithrwydd ac maent yn gweld y ddarpariaeth yn bwynt gwerthu dilys sy'n cyfoethogi profiad eu cwsmeriaid. Gallai'r rhain naill ai fod yn siaradwyr Cymraeg neu ymwelwyr o bell sy'n chwilfrydig o ran gweld a chlywed y Gymraeg.

"Mae ein gwesteion yn caru clywed y Gymraeg"
Parc carafanau, y Gogledd

"Mae'n wych fod yn ddwyieithog yma ac i ymwelwyr allu siarad eu mamiaith"
Parc carafanau, y Canolbarth

"Rydym yn deulu sy'n siarad Cymraeg, sydd yn bwynt gwerthu. Mae fy ngŵr yn awyddus iawn i hyrwyddo hyn, sy'n ychwanegu at brofiad yr ymwelwyr. Mae pobl o Ewrop yn caru'r agwedd honno."
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

"Mae rhan fawr o'n masnach yn fasnach bysiau o ogledd Lloegr ac maent yn hoffi clywed y Gymraeg. Rydym yn ei thaflu i mewn i gwisiau'n aml fel elfen wahanol."
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Cost ariannol yw'r rhwystr mwyaf

- 7.14 Ymysg y busnesau nad ydynt yn gwneud popeth y gallent i gyfathrebu'n ddwyieithog, cost yw'r rhwystr canfyddedig mwyaf arwyddocaol.

"Mae'n draul ddiangen"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Byddai'r gost o'i wneud yn ormod"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

Mae amser yn rhwystr yn ogystal

- 7.15 Mae rhai busnesau yn cyfeirio at amser yn ogystal fel rhwystr rhag gwneud mwy. Gall hyn gynnwys yr amser sydd ei angen i drefnu cyfieithiad o ddeunydd ysgrifenedig, a'r amser sydd ei angen i ddysgu siarad Cymraeg.

"Amser yw'r broblem – nid oes gennyf amser i ddysgu ac anfon staff i ddysgu"
Llety hunanddarpar, y Gogledd

"Mae darpariaeth ddwyieithog yn ein gosod o dan anfantais lwyr. Mae'n wastraff amser, arian ac adnoddau."
Parc carafanau, y Canolbarth

Cost i'r amgylchedd

- 7.16 Gwnaeth ambell fusnes sylw ar gost amgylcheddol cynhyrchu papur ychwanegol ar gyfer dwy iaith.

"Dwi'n gwybod ei bod yn bwysig i siaradwyr Cymraeg a dwi'n eu hedmygu a'u parchu am hynny, ond mae'r swm o bapur a gynhyrchir yn anodd ei gredu yn fy marn i"
Llety hunanddarpar, y Gogledd

Mae'r gost yn cael ei phwyso a'i mesur yn erbyn y budd tebygol

- 7.17 Mae llawer o fusnesau yn pwyso a mesur y costau hyn o ran arian ac amser yn erbyn y budd tebygol ar gyfer eu busnesau. Fel y soniwyd, mae'r prif farchnadoedd ar gyfer nifer o fusnesau twristiaeth Cymru y tu allan i Gymru. Mae rhai yn nodi y byddai'n well ganddynt fuddsoddi adnoddau mewn darparu ar gyfer ieithoedd Ewropeaidd eraill, oherwydd y byddai mwy o fudd o wneud hyn na darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae eraill hefyd yn teimlo bod siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn gallu siarad Saesneg yn iawn.

"Mae Sbaeneg, Almaeneg a Ffrangeg yn llawer pwysicach i mi na'r Gymraeg"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Does dim byd yn Gymraeg – does dim ei hangen o gwbl. Mae 5% o ymwelwyr yn siarad Cymraeg ac maen nhw hefyd yn siarad Saesneg yn berffaith."
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Darpariaeth ddwyieithog o fewn rheswm

- 7.18 Mae rhai busnesau yn ystyried bod darpariaeth ddwyieithog yn bwysig, ond dim ond hyd at bwynt.

"Does gen i ddim problem â darpariaeth ddwyieithog ar wahân i'r ffaith fod rhaid iddi fod yn realistig – nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gofidio llawer amdani. Rwy'n gryf o blaid cynnal y dreftadaeth sydd yng nghlwm iddi fodd bynnag!"
Hostel, y De-ddwyrain

"Dwi'n siaradwr Cymraeg rhugl, ond dwi ddim eisiau ei gwrthio i lawr gyddfau pobl eraill"
Llety hunanddarpar, y Gogledd

"Rwy o blaid y Gymraeg, ond ni ddylem deimlo ein bod o dan bwysau. Nid yw'n mynd i werthu ystafell ar ein rhan."
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Ym mhle y gallwn gael cymorth?

- 7.19 Hoffai rai busnesau wneud mwy, ond nid ydynt yn gwybod os yw help ar gael ac ym mha le.

"Gallai fod yn gostus iawn. Mae'n rhywbeth y byddem yn hoffi ei ystyried – a yw Croeso Cymru yn ei gefnogi?"

Parc carafanau, y De-orllewin


“Nid ydym yn gwybod ym mha le y gallwn gael templedi arwyddion Cymraeg”

Llety hunanddarpar, y De-orllewin

*“Y prif rwystrau yw costau cyfieithu ac nid oes cymorth ar gael i helpu busnesau i
ddod yn ddwyieithog”*

Llety hunanddarpar, y Canolbarth

8. Paratoi ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb



Diffyg paratoi am Brexit heb gytundeb

- 8.1 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristiaeth yng Nghymru'n gwneud dim i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb, yn enwedig y rheiny yn y De-orllewin a'r Canolbarth. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau cyn i ASau bleidleisio o blaid deddfwriaeth i geisio atal gadael yr UE heb gytundeb. Mae Brexit yn destun mor sensitif ar gyfer rhai gweithredwyr fod 36 o'r 800 o fewn sampl yr arolwg wedi gwrthod ateb y cwestiwn.
- 8.2 Mae atyniadau a darparwyr gweithgareddau wedi paratoi yn well na'r sectorau eraill. Mae 22% o atyniadau a darparwyr gweithgareddau yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb, o'u cymharu ag 8% yn unig o fusnesau yn y sectorau eraill.

"Mae Brexit yn ein gofidio. Rydym yn cynyddu ein stociau o lieiniau, offer glanhau a rholiau tŷ bach, gan nad ydym yn gwybod os byddwn yn gallu eu prynu yn yr un modd ar ôl iddo ddigwydd."


Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

"Nid ydym yn mynd i wneud unrhyw beth yn wahanol ar wahân i wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid yn barhaus"

Parc carafanau, y Canolbarth

9. Hyder ar gyfer yr Haf

Hyder fesul sector



Hyder 'gweddol' ar gyfer yr hydref

9.1 Ar y cyfan, mae'r hyder ar gyfer yr hydref yn 'weddol' ym mhob sector. Mae rhai gweithredwyr yn sôn am gael nifer o archebion neu fathau newydd o ymwelwyr sy'n ymweld yn yr hydref, tra bod eraill wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n ymddangos fel petaent yn dymhorol iawn, ac mae twristiaeth yn tawelu ar ôl yr haf. Mae rhai hefyd yn dweud bod ansicrwydd ynghylch Brexit yn hongian uwch ben cyfnod yr hydref.

"Mae archebion o flaen llaw yn araf iawn. Mae ansicrwydd ynghylch Brexit yn parhau yn ystod yr hydref."

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Rydym yn llawn o archebion nes mis Tachwedd! Mae'n ymddangos ein bod yn denu llawer o gwsmeriaid sydd wedi bod o'r blaen ac mae llawer eisoes wedi archebu eto ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rwy'n anfon cerdyn Nadolig at fy holl gwsmeriaid bob blwyddyn, ac rwy'n credu ei fod yn helpu!"

Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain


"Mae'r hydref o hyd yn amser da ar ein cyfer gan fod yr ysgolion yn ailgychwyn. Mae gennym lawer o deithiau ysgol yn dod o Loegr."

Darparwr gweithgareddau, y Gogledd

"Rydym yn cau ar ddiwedd mis Medi"

Atyniad, y De-orllewin

Tuedd mewn hyder



Mae'r hyder yn lled nodweddiadol ar gyfer yr amser hwn o'r flwyddyn

9.2 Mae canlyniadau hanesyddol yn dangos bod hyder yn dueddol o ostwng ar ôl i dymor brig yr haf fynd rhagddo.

“Mae archebion yn pylu yn raddol o'r adeg hon hyd at fis Rhagfyr”
Bwyty, y de-orllewin

10. Canfyddiadau ansoddol

- 10.1 Rydym wedi cynnal saith cyfweiliad manwl dros y ffôn â ffigurau twristiaeth allweddol o sefydliadau a chyrff amrywiol ledled Cymru. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Perfformiad yr haf

- 10.2 Ar y cyfan, ceir teimlad fod yr haf wedi bod yn un da, ond mae wedi bod yn anodd cynnal y lefelau uchel o ymwelwyr a gafwyd yn ystod haf 2018.

“Mae busnes wedi bod yn eithaf da. A yw wedi bod yn well na'r llynedd? Byddwn i'n dweud na, ond efallai nad yw'r tywydd wedi bod cystal. Mae gweithgareddau hamdden yn ddibynnol ar y tywydd.”

“Yn sicr mae'n dawelach na'r hyn roeddem wedi'i ddisgwyl. Ers i'r ysgolion ddychwelyd yr wythnos hon mae pethau wedi gostwng yn sydyn iawn. Roedd bron yn teimlo fel petai'n brysurach yn gynharach yn y tymor cyn i wyliau'r haf ddechrau. Mae hi wedi bod yn dawel; nid oedd y tywydd cystal eleni. Roedd y llynedd yn eithriadol.”

- 10.3 Mae cymdeithasau sy'n cynrychioli busnesau yn y sector hunanddarpar yn cymryd golwg tra gwahanol. O'u safbwynt nhw, cafwyd dirywiad graddol yn niferoedd yr ymwelwyr sy'n defnyddio llety hunanddarpar. Nid oes llawer o gonsensws ynghylch y rheswm dros hyn, ond mae aelodau yn credu mai ansicrwydd ynghylch yr economi sydd y tu ôl iddo, boed hynny o ganlyniad i Brexit neu resymau amrywiol eraill.

“Mae'n ostyngiad graddol. Yn y gorffennol, roedd 90% o leoedd wedi'u cymryd o'r Pasg hyd at ddiwedd mis Hydref. Dyn ni'n sôn am 60% neu 70% erbyn hyn.”

“Mae llawer o ansicrwydd. Mae gan bobl lai o arian yn eu pocedi; maent yn mynd ar eu gwyliau yn llai aml ac am gyfnodau byrrach. Mae'n cael effaith amlwg ar y trosiant.”

Darpariaeth ddwyieithog

- 10.4 Mae agweddau tuag at ddarpariaeth ddwyieithog yn amrywiol iawn. Nid oes cydberthyniad cadarn yn ôl sector; mae agweddau ynghylch darpariaeth Gymraeg yn amrywio yn dibynnu ar allu personol i siarad Cymraeg. Ystyrir darpariaeth ddwyieithog yn ffafriol ar y cyfan, er mai cost neu anawsterau gweithredu yw'r pryder mwyaf. Mae hyn yn perthyn i gostau cyfieithu a'r ffaith nad yw'r rhan fwyaf o fusnes mwyafrif y gweithredwyr yn dod o westeion sy'n siarad Cymraeg.

“Rwy'n teimlo ei fod yn rhywbeth braf i bobl gael ei weld ond ni fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i drosiant neu archebion ein haelodau. Nid wy'n credu y bydd pobl yn dewis rhywle oherwydd ei fod yn Gymraeg.”

“Fel rhywun sy’n siarad ychydig o Gymraeg, nid wy’n credu ei bod yn rhwystr. Mae’n atyniad ar un llaw ... nid oes llawer o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector antur.”

- 10.5 Mae rhanddeiliaid ar y cyfan yn teimlo y dylai darpariaeth ddwyieithog fod yn wirfoddol gan ystyried y costau cysylltiedig ac nad yw’r rhan fwyaf o dwristiaid sy’n dod i Gymru, neu sy’n dod o Gymru, yn siarad Cymraeg. Mae gan rai safbwyntiau cryf iawn am y mater.

“Mae beth bynnag rydym yn ei wneud yn wirfoddol. Petai bobl yn ein gorfodi, byddwn i’n gwerthu’r busnes.”

Brexit a’r dyfodol

- 10.6 O ran Brexit, nid yw gweithredwyr yn gwneud unrhyw beth rhagweithiol ar y cyfan. Mae hyn yn rhannol oherwydd ansicrwydd y sefyllfa a pheidio â gwybod beth i’w wneud, ond mae hefyd oherwydd y ffaith nad yw wedi cael effaith niweidiol hyd yn hyn ar lefelau ymwelwyr ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau. Mae gwerth gwan y bunt o fantais ar gyfer denu ymwelwyr o dramor i Gymru, ac mae hefyd yn cynnig mwy o resymau i bobl Brydeinig sydd ar eu gwyliau aros o fewn y DU.

“Nid wy’n credu y byddant yn rhoi llawer o sylw ... nid yw fy aelodau yn teimlo y bydd yn cael effaith ar eu busnesau. Byddant yn parhau i wneud yr hyn y maent yn ei wneud ... mae llawer o fusnes fy aelodau yn fusnes Prydeinig ... efallai y bydd hyd yn oed yn gwella pethau gan y bydd pobl yn aros yn y DU.”

“Nid ydym wedi sylwi ar unrhyw wahaniaeth o ran ein hymwelwyr o Ewrop. Mae ein hymwelwyr hŷn wedi bod yn amharod teithio dramor gan nad ydynt yn gwybod beth sy’n mynd i ddigwydd.”

- 10.7 Gallai Brexit gael effaith ar atyniadau cadwraeth. Gyda llai o gyllid yn dod o Ewrop i’w helpu, bydd y refeniw yn is a bydd gweithredu yn fwy cymhleth.

“Mae bod y tu allan i Ewrop yn golygu y bydd rhan fawr o’n gwaith yn cael ei heffeithio am ein bod yn colli ein mynediad at grantiau. Bydd deddfwriaeth cadwraeth a bywyd gwyllt, sydd wedi bod yn dda iawn ledled Ewrop, yn wynebu ansicrwydd.”